
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 157 (Cy.21)

PRIFFYRDD, CYMRU

**GORCHYMYN CEFNFFORDD
CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470)
(GWELLIANT MAES YR HELMAU I
CROSS FOXES A THYNNU STATWS
CEFNFFORDD) 2012**

Gwnaed 23 Ionawr 2012

Yn dod i rym 2 Chwefror 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾, a phob pŵer galluogi arall⁽²⁾, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

1. Daw'r priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffyrdd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinellau du trymion ar y plan a adnewyd.

3. Bydd y darn o gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adnewyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddisbarthiadol o'r dyddiad yr hysbysir Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru fod y cefnffyrdd newydd yn agored ar gyfer traffig trwodd.

4. Yn y Gorchymyn hwn:-

Mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

i. ystyr "y plan a adnewyd" (*the deposited plan*) yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 WAG5, a farciwyd "Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470)

(Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012”, a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru;

ii. ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470);

iii. ystyr “y cefnffyrdd newydd” (“*the new trunk roads*”) yw’r cefnffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 o’r Gorchymyn hwn.

5. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Chwefror 2012 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 23 Ionawr 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1980 p.66

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn bellach wedi’u trosglwyddo, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

LLWYBRAU’R CEFNFFYRDD NEWYDD

Mae llwybrau’r cefnffyrdd newydd rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes yn Sir Gwynedd fel a ganlyn:

1. Darn sy’n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 130 metr i’r de-

ddwyrain o gornel ddeheuol yr eiddo a elwir 'The Lodge' (a farciwyd A-A ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 0.64 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 397 metr i'r de o gornel dde-orllewinol yr eiddo a elwir 'R Efail' (a farciwyd B-B ar y plan a adneuwyd).

2. Darn sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 643 metr i'r gogledd o gornel ogleddol yr eiddo a elwir 'Rhiwspardyn' (a farciwyd C-C ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y de yn gyffredinol am bellter o tua 0.35 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 353 metr i'r gogledd-orllewin o gornel ogledd-orllewinol yr eiddo a elwir 'Rhiwspardyn' (a farciwyd D-D ar y plan a adneuwyd).

ATODLEN 2

DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Y darn o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd yw'r llwybr fel a ganlyn yn Sir Gwynedd:

Y darn hwnnw o gefnffordd sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 67 metr i'r gorllewin o gornel dde-orllewinol yr eiddo a elwir 'R Efail' ac yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 0.13 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 14 metr i'r de o'i chyffordd â'r ffordd B4416 i'r Brithdir (a farciwyd A ar y plan a adneuwyd).

DEDDF PRIFFYRDD 1980

GORCHYMYN CEFNFFORDD CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470) (GWELLIANT MAES YR HELMAU I CROSS FOXES A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 2012

A

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CAERDYDD I
LAN CONWY (YR A470) (FFYRDD YMYL
GWELLIANT MAES YR HELMAU I CROSS
FOXES) 2012**

HYSBYSIR DRWY HYN FOD Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn darparu bod:-

a. ffordd oddeutu 0.64 cilometr o hyd a fydd yn cychwyn wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 130 metr i'r de-ddwyrain o gornel ddeheuol yr eiddo a elwir 'The Lodge' ac yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 397 metr i'r de o gornel dde-orllewinol yr eiddo a elwir 'R Efail'; a

b. ffordd oddeutu 0.35 cilometr o hyd a fydd yn dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 643 metr i'r gogledd o gornel ogleddol yr eiddo a elwir 'Rhiwspardyn' ac yn ymestyn i gyfeiriad y de yn gyffredinol hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 353 metr i'r gogledd-orllewin o gornel ogledd-orllewinol yr eiddo a elwir 'Rhiwspardyn',

yn cael eu hadeiladu rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes yn Sir Gwynedd ac yn dod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym; ac

y bydd y darn hwnnw o Gefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy yn Sir Gwynedd, sy'n cychwyn wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 67 metr i'r gorllewin o gornel dde-orllewinol yr eiddo a elwir 'R Efail' ac yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 0.13 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 14 metr i'r de o'i chyffordd â'r ffordd B4416 i'r Brithdir, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddsbarthiadol o'r dyddiad yr hysbysir Cyngor Gwynedd o hynny gan Lywodraeth Cymru i (a fydd yn dod yn awdurdod priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw).

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn eu hawdurdodi:-

- a. i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- ch. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd, a
- d. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

y cyfan ar neu yng nghyffiniau llwybr y gefnffordd newydd a grybwyllir uchod; ac

yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Gwynedd ar y dyddiad yr hysbysir y Cyngor gan Lywodraeth Cymru bod y priffyrdd newydd wedi eu cwblhau ac yn agored i draffig trwodd.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchmynion a'r planiau cysylltiedig yn ddi-dâl yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 2 Chwefror 2012 tan 15 Mawrth 2012, neu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, yn y swyddfeydd canlynol:

- Cyngor Gwynedd, Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YB;
- Llywodraeth Cymru, Yr Is-adran Ffyrdd a Phrosiectau, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9RZ, a
- Llywodraeth Cymru, Y Gangen Archebion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Mae'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012', OS 2012 Rhif 157 (Cy.21), wedi ei gyhoeddi gan TSO (Y Llyfrfa) a gellir prynu copïau ohono ar lein oddi wrth www.tsoshop.co.uk neu TSO @Blackwell; www.tso.co.uk/contact/bookshops/agents/cardiff/ ac Asiantau Achrededig eraill.

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes) 2012' gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir oherwydd gwneud y naill neu'r llall o'r Gorchmynion ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwnnw ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno, neu o reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, mewn perthynas â'r Gorchmynion, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos ar ôl 2 Chwefror 2011, neu o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchmynion neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchymynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd,' '2012').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Ymylon Ffyrdd a Gorchymynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd,' '2012')

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Archebion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru